CIWB

# Atebion

| | |
|---|---|
| Yn, gyntaf mae ... | sleid 2 |
| Yn ail, mae ... | sleid 4 |
| Yn drydydd, mae ... | sleid 3 |
| Yn bedwerydd, mae ... | sleid 5 |
| Yn bumed, mae ... | sleid 1 |

**Beth sy'n digwydd yn y sleidiau?**

Bob blwyddyn, ar Ddydd Llun y Pasg, mae pobl Bessières, tua 30 cilomedr o Toulouse yn Ffrainc, yn gwneud omlet enfawr.



Mae 15 cogydd yn chwipio wyau ac maen nhw'n coginio'r wyau mewn sosban enfawr - 4 m mewn diamedr.

Maen nhw'n defnyddio:
un deg pum mil (15 000) o wyau.
25 litr o olew
6 cilogram o bupur a halen
Sifys
Pupur tsili arbennig.

Hefyd, maen nhw'n paratoi torthau bara un pwynt pump (1.5) metr o hyd.

Ar ôl coginio, maen nhw'n torri'r omlet ac maen nhw'n rhannu'r omlet rhwng y bobl.
Hefyd, mae cerddoriaeth a dawnsio yn y stryd, marchnad a chystadlaethau.

Bydd Dydd Llun y Pasg ar 28 Mawrth yn 2016.
Felly, ar 28 Mawrth, 2016, bydd 15 cogydd yn torri ac yn coginio cannoedd o wyau a bydd miloedd o bobl yn mwynhau bwyta'r omlet enfawr.

| Geirfa | |
|---|---|
| sifys | chives |
| pupur tsili | chilli pepper |
| torthau | loaves |
| o hyd | long, in length |
| cannoedd | hundreds |